

PRICE, JOHN ('Old Price '; 1803 - 1887), clerigwr, naturiaethwr, hynafiaethydd, a 'chymeriad'

Enw: John Price
Ffugenw: Old Price
Dyddiad geni: 1803
Dyddiad marw: 1887
Rhiant: James Pryce
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, naturiaethwr, hynafiaethydd, a 'chymeriad'
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1803 ym Mhwll-y-crochan, Bae Colwyn, yn ddisgynydd i res hir a hir-hoedlog o glerigwyr. Ei hendaidd oedd Ellis Pryce, a fu'n rheithor Ysgeifiog bron 60 mlynedd (1704-1763); ei daid oedd James Pryce, ficer Betws-yn-Rhos 1746-58, a rheithor Llansannan 1758-82; a'i dad oedd James Pryce, a fu'n rheithor Cerrig-y-drudion o 1784 hyd 1800, ac wedyn am hanner canrif (1800-50) yn rheithor dibreswyl Llanfechain ym Maldwyn, gan fyw ym Mhwll-y-crochan a Phlas-yn-Llysfaen, a marw'n 94 ' wedi cwyno ar ei iechyd ar hyd ei oes '; claddwyd y tri gwrda hyn yn Ysgeifiog. Anfonwyd John Price i ysgol Amwythig, lle'r oedd yn yr un dosbarth â B. H. Kennedy, ac yn yr ysgol ar yr un pryd â Charles Darwin, a symblodd ei ddiddordeb mewn natur ac a fu'n gyfaill mawr iddo wedyn. Graddiodd o Goleg S.John's yng Nghaergrawnt yn 1826, yn drydydd yn y dosbarth blaenaf yn y clasuron. Ond serch iddo fod yn athro am gyfnod yn ei hen ysgol, ac mewn mannau eraill, datblygodd ansefydlogrwydd ac odrwydd mewn gwisg ac ymarweddiad (ymfalchïai yn ei lysenw ' Old Price') na chydwedent â gyrfa o'r math arferol. Cyhoeddodd amryw lyfrau (sydd bellach yn hynod brin), megis *Llandudno, and how to enjoy it*, 1869, ac *Old Price's Remains*, misolyn od i'w ryfeddu (Ebrill 1863-Mawrth 1864), sy'n llawn diddordeb i breswylwyr Llandrillo-yn-Rhos a'r cyffiniau. Ef hefyd a gyfrannodd y bennod ar natur i *History of Aberconwy* [Robert Williams](#). Bu farw yng Nghaerlleon Fawr, 14 Hydref 1887, yn 84 oed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

T. Llechid Jones yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Ebrill, 1927. 104-11
cymh. G. Porter, *Colwyn Bay before the houses came* (Manceinion 1938), 1938, 44-54

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361357](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

